# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 14 Ionawr 2025

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/14804

## 252

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd cwestiynau 1-4 a 6-9. Tynnwyd cwestiwn 5 yn ôl. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.26

## 3 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai: Cartrefi Cynnes

Dechreuodd yr eitem am 14.56

## 4 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip: Gwneud y Gorau o Incwm a diweddariad ar waith i weithredu Siarter Budd-daliadau Cymru

Dechreuodd yr eitem am 15.39

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 5 Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cofrestru Etholiadol heb Geisiadau) (Cynllun Peilot) (Cymru) 2025

Dechreuodd yr eitem am 16.24

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM8782** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5, yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cofrestru Etholiadol heb Geisiadau) (Cynllun Peilot) (Cymru) 2025 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Rhagfyr 2024.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 38 | 0 | 14 | 52 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar y canlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân

**Derbyniwyd y cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar y canlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân.**

## 6 Egwyddorion Cyffredinol Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 16.42

**NDM8780** Mark Drakeford (Gorllewin Caerdydd)

Cynnig bod Senedd Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru).

Gosodwyd Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Senedd ar 15 Gorffennaf 2024; gosodwyd adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) gerbron y Senedd ar 13 Rhagfyr 2024.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 7 Y penderfyniad ariannol ynghylch Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 16.42

**NDM8781** Mark Drakeford (Gorllewin Caerdydd)

Cynnig bod Senedd Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeiriwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 8 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 17.43

Daeth y cyfarfod i ben am 17.44

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 15 Ionawr 2025**